

TEITL : <i>TITLE:</i>	DEFNYDD TGCH – Dysgwyr ICT USAGE – Learners
UWCH-GYFARWYDDWR A CHYFRIFOLDEB: <i>RESPONSIBLE EXECUTIVE DIRECTOR:</i>	<i>Gwasanaethau Corfforaethol</i> <i>Corporate Services</i>
PWRPAS: <i>PURPOSE:</i>	<p>Dyma arweiniad Grŵp Llandrillo Menai i ddysgwyr a staff i ddarparu gwybodaeth ar gyfleusterau TGCh sydd ar gael i ddysgwyr ac i wneud dysgwyr yn ymwybodol o’u cyfrifoldeb wrth ddefnyddio TGCh yng Ngrŵp Llandrillo Menai.</p> <p><i>This is Grŵp Llandrillo Menai’s guide for Learners to provide information on ICT facilities available to Learners and to make Learners aware of their responsibilities when using ICT within Grŵp Llandrillo Menai.</i></p>
CYFATHREBU <i>COMMUNICATION</i>	
PWLLGOR / GRŴP MONITRO: <i>COMMITTEE / GROUP RESPONSIBLE FOR MONITORING:</i>	<i>Pwyllgor Ymgynghori ar y Cyd / JCC</i> <i>Tîm Strategol</i>
CYMERADWYWYD GAN: <i>APPROVED BY:</i>	
DYDDIAD CYMERADWYO <i>APPROVAL DATE:</i>	
DYDDIAD ADOLYGU <i>REVIEW DATE CYCLE:</i>	<i>Blynnyddol</i> <i>Annual 2020</i>

Bwriad y ddogfen hon

Lluniwyd y ddogfen hon fel arweiniad i ddysgwyr a staff i ddarparu gwybodaeth ar gyfleusterau TGCh sydd ar gael i ddysgwyr ac i wneud dysgwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb wrth ddefnyddio TGCh yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Mae'r ddogfen hon yn gweithredu o fewn fframwaith polisiau cysylltiedig cydraddoldeb ac amrywiaeth y Coleg. Mae TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu) yn cynnwys yr holl gyfleusterau cyfrifiadur a thechnoleg yn y coleg. Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol, neu'n amlach pe bai angen, yn unol âg unrhyw newidiadau o fewn y Grŵp.

Cyffredinol

Caiff ymwrthodiad ei arddangos ar bob cyfrifiadur sydd ar rwydwaith y coleg fel a ganlyn:



Darperir cyfrifon ar gyfer busnes gwaith coleg yn unig, ac fel y nodir yn yr ymwrthodiad, drwy fewngofnodi, mae dysgwyr yn cytuno y gall unrhyw weithgaredd ar y system gael ei fonitro.

Dylai dysgwyr:

- Sicrhau eu bod wastad yn cario eu cerdyn adnabod a llinynnau gwddf tra'u bod ar gampws y coleg
- Sicrhau eu bod yn allgofnodi o'r system wrth adael eu cyfrifiadur
- Sicrhau nad oes neb yn gwybod eu cyfrinair, ni ddylent roi eu cyfrinair i unrhyw un, a pheidio â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio eu cyfrif rhwydwaith am unrhyw reswm
- Gwneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau fod eu mynediad i'r rhwydwaith yn ddiogel ac i hysbysu ar unwaith unrhyw doriad neu doriad amheus o ddiogelwch i Wasanaethau TGCh

Cyfrif Rhwydwaith a Storfa Data

Derbynnir mewngofnod a chyfrineiriau cyfrif gan y tiwtor cwrs. Caiff cyfrinair y dysgwr ei neilltuo yn ganolog ac ni ellir ei newid oni bai y gofynnir i Ddesg Gymorth Gwasanaeth TGCh (wedi ei seilio ym Mloc Dinerth ar safle Rhos, est 460). Pe bai myfyriwr yn anghofio ei gyfrinair

fe all ofyn amdano wrth ddangos ei gerdyn adnabod i'r tiwtor cwrs, aelod o staff yn y gweithdy TG neu Wasanaethau TGCh.

Bydd gan ddysgwyr sydd â chyfrifon rhwydwaith unigol storfa ddata o 500mb diofyn yn ogystal â swm diderfyn ar Google Drive.

Gellir cynyddu hyn os yn angenrheidiol yn ôl cais gan diwtor y dysgwr.

Gwelir y storfa yma yn My Computer fel gyriant: **h** - nid oes gan neb arall fynediad i'r adran yma ble dylid cadw'r holl waith. Mae yna ffolder o'r enw **docs** a ffolder o'r enw **config** ar bob gyriant: h dysgwr - mae'r system angen y ffolderi yma ac ni ellir newid eu henwau na dileu'r ffolderi gan y bydd hynny'n atal y rhaglenni rhag rhedeg. Bydd llawer o waith yn cael ei arbed yn ddiiofyn yn ffolder h:\docs ond fe all myfyrwyr greu ffolderi ychwanegol er mwyn cadw trefn ar eu gwaith

Ni ddylai gwaith gael ei arbed ar yriant: c gan y bydd yn cael ei golli pan fo'r defnyddiwr yn allgofnodi o'r rhwydwaith. Ni ddylai gwaith gael ei arbed yn uniongyrchol i gyfrwng symudol megis disg hyblyg neu gof bach USB – fe ddylai gael ei arbed i'r rhwydwaith gyriant: h: yn gyntaf ac yna ei gopïo i'r dyfeisiau hyn.

.

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn defnyddio Moodle a Google Classroom fel ei Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh). Bydd tiwtor/iaid y cwrs yn darparu mynediad i ddysgwyr i'r cyfleuster yma.

Cedwir cyfrifon a data dysgwyr am 12 mis, a byddant yn cael eu dileu os na chânt eu defnyddio o fewn cyfnod o 12 mis.

E-bost

Cyfeiriad E-bost Allanol y dysgwr fydd rhifadnabodydysgwr@gllm.ac.uk

Mae modd i ddysgwyr gael mynediad i'w cyfrif e-bost yn y coleg drwy ddefnyddio'r eicon "GLLM Email" o dan ffolder Programs, ac yn allanol drwy ddilyn y URL canlynol

mail.gllm.ac.uk

Gallant hefyd ddilyn y ddolen ar wefan y coleg ar gyfer e-bost Dysgwyr.

Pe bai dysgwyr yn anghofio eu cyfeiriad e-bost fe ellir ei ailosod drwy gysylltu â Desg Gymorth Gwasanaethau TGCh drwy eu tiwtor.

Ar gyfer pob ymholiad cyfrif dylai dysgwyr ddangos eu cerdyn adnabod.

Mynediad i'r Rhyngrwyd

Darperir mynediad i'r rhyngrwyd i wneud gwaith cwrs y coleg yn bennaf. Caiff pob mynediad rhyngrwyd ei fonitro a chaiff gwefannau a ystyrir yn amhriodol eu blocio. Os bydd dysgwr yn gweld fod gwefan wedi ei flocio'n amhriodol gallant wneud cais drwy Wasanaethau TGCh.

Argraffu a defnyddiau traul

Mae angen i ddysgwyr fod yn gyfrifol am yr amgylchedd, felly dylid gwneud defnydd o'r cyfleusterau argraffu pan fo hynny'n angenrheidiol yn unig a dylid osgoi argraffu copïau lluosog.

Ers Medi 2011 mae cyfleuster o'r enw Papercut yn weithredol sy'n monitro'r gwaith argraffu ar bob safle. Bydd hwn yn monitro ac yn mewngofnodi'r holl waith argraffu ar rwydwaith y coleg. Darperir cyfleusterau argraffu ar gyfer dibenion academaidd y Coleg ac nid ar gyfer defnydd personol.

Dyrennir gwerth £20 o gredyd argraffu i ddysgwyr ym mis Medi a £20 pellach o gredyd ym mis Ionawr ac Ebrill. Ni fydd dysgwyr yn gallu argraffu os fydd eu balans yn negyddol, ac os nad oes ganddynt ddigon o gredyd i argraffu byddent yn derbyn neges i ddweud bod eu balans yn annigonol.

Gall dysgwyr brynu credydau argraffu ychwanegol o swyddfeydd cyllid y coleg ac o feysydd staff eraill a gytunwyd arnynt.

Gall tiwtoriaid y cwrs ofyn fod gan ddysgwyr ychwanegol neu grwpiau o ddysgwyr gredydau argraffu ychwanegol os bydd angen.

Cyfrifoldebau at y Cyfrif

Camddefnyddio E-bost

Ni fydd Polisi'r Coleg yn caniatáu'r canlynol wrth ddefnyddio'r system e-bost:

- Defnyddio'r system e-bost pan fydd aelod staff yn gofyn iddynt beidio â gwneud hynny.
- Gyrru E-byst niferus (E-bost sengl i nifer o unigolion neu restrau dosbarthu).
- Gyrru E-byst difriol neu fygythiol
- Gyrru E-bost a fyddai'n dod â gwarth i enw da'r coleg
- Dosbarthu graffig fel atodion a fyddai o bosib yn ymosodol
- Dosbarthu gemau a meddalwedd eraill fel atodion
- Defnyddio cyfrifon E-bost pobl eraill, neu ymgeisio i ddefnyddio cyfrif e-bost pobl eraill, unai drwy brocsi neu drwy gael gafael ar eu cyfrinair
- Gyrru gormod o E-byst personol
- Unrhyw gam ddefnydd arall na restrir

Camddefnyddio mynediad i'r Rhyngrwyd

Nid yw Polisi'r Coleg yn caniatáu'r canlynol wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd:

- Defnyddio gormod ar y we ar gyfer defnydd personol
- Llwytho unrhyw feddalwedd i lawr
- Ceisio cael mynediad i safleoedd difriol neu fygythiol yn fwriadol, er enghraifft, pornograffi, trais, hacio a safleoedd eraill sydd wedi'u gwahardd o dan Bolisi'r Grŵp.
- Ceisio cael mynediad yn fwriadol i safleoedd sy'n cynnwys gwybodaeth a ellir ei ddisgrifio fel "offer hacio"
- Chwarae gemau neu geisio rhedeg gweithgareddau cyfoedion
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol ar-lein e.e. bwlio, aflonyddu, trolio, postio negeseuon neu sylwadau ymosodol
- Unrhyw gamddefnydd arall na restrir uchod

Camddefnyddio cyfleusterau Caledwedd, Meddalwedd, Systemau a Rhwydweithiau

Ni fydd Polisi'r Coleg yn caniatáu'r canlynol wrth ddefnyddio unrhyw gyfleusterau TGCh y Coleg:

- Defnyddio neu geisio defnyddio meddalwedd, systemau neu galedwedd didrwydded
- Mewnosod neu geisio mewnosod unrhyw feddalwedd, systemau neu galedwedd
- Copïo neu geisio copïo meddalwedd y coleg
- Unrhyw gais i ddefnyddio unrhyw feddalwedd sydd ddim ar gael trwy'r Ffenest "Application Launcher"
- Copïo, trosglwyddo neu gyflwyno deunydd sy'n torri hawlfraint person neu sefydliad arall

- Defnyddio cyfleusterau argraffu'r coleg ar gyfer dibenion sydd ddim i'w wneud â'r coleg
- Defnyddio cyfrifon mewngofnodi unigolion eraill neu geisio defnyddio cyfrifon mewngofnodi unigolion eraill
- Ceisio defnyddio caledwedd neu feddalwedd i gael gwybodaeth ar draffig y rhwydwaith, e.e. gwybodaeth ar id mewngofnodi a chyfrineiriau'r defnyddwyr neu weithgareddau ar y rhwydwaith
- Ceisio cael mynediad i unrhyw ddata heb awdurdod ar y rhwydwaith
- Arbed deunydd anaddas ar unrhyw gyfrifiadur neu faes rhwydwaith y coleg e.e. ffeiliau cerddoriaeth, ffotograffau, graffig ac unrhyw ffeiliau eraill sydd ddim yn berthnasol i waith coleg
- Creu neu drosglwyddo unrhyw ddelweddau difriol anweddu, data neu ddeunyddiau eraill, neu unrhyw ddata a ellir ei droi yn ddelweddau neu ddeunydd difriol neu anweddu
- Creu neu drosglwyddo deunydd sydd wedi ei gynllunio neu'n debygol o achosi poen, anghyfleustra neu bryder diangen
- Creu neu drosglwyddo deunydd difriol
- Creu neu drosglwyddo deunydd sydd wedi'i lunio i greu aflonyddwch, anhwylostod neu bryder heb angen
- Creu neu drosglwyddo deunydd difrifol
- Cyflwyno firysau o ffynonellau allanol
- Unrhyw ymgais i ail-ffurfweddu neu newid unrhyw osodiadau meddalwedd ar unrhyw gyfrifiadur
- Unrhyw ymgais i symud dyfeisiau atodol neu atodi dyfeisiau heb awdurdod i beiriant neu ar rwydwaith y coleg, neu unrhyw ymgais i symud neu ddatgysylltu unrhyw offer TGCh y coleg e.e. PC, argraffwr, ffôn
- Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill
- Troseddu yn erbyn preifatrwydd defnyddwyr eraill
- Amharu ar waith defnyddwyr eraill
- Camddefnydd arall sydd heb ei restru

Canlyniadau o unrhyw gamddefnydd:

Ystyrir unrhyw gamddefnydd o Gyfleusterau TGCh fel toriad difrifol o god disgyblaethol y Coleg a bydd yn arwain at weithred yn erbyn y dysgwyr ynghlwm fel a ganlyn:

- Analluogi cyfrifon wrth ymchwilio'r camddefnydd
- Bydd dysgwyr yn atebol i weithdrefn ddisgyblaethol y Coleg os ydynt yn camddefnyddio'r system

Bydd y coleg yn ymdrin ag unrhyw ddefnyddiwr sy'n torri'r cytundeb yma'n unol â chod disgyblaethol y Coleg. Mae sancsiynau yn cynnwys:

Rhoi Cerydd

Eu Tynnu yn ôl o'r Coleg

Eu Hatal o'r Coleg

Eu Gwahardd o'r Coleg

Cysylltiadau

Dylid trafod unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon yma gyda'r tiwtor cwrs i gychwyn.

Dylid trafod unrhyw ymholiadau ynghylch defnydd o unrhyw system TGCh gyda'r tiwtor cwrs i gychwyn. Mae yna gyfleuster gweithdy TG ar bob safle hefyd.

Dylid hysbysu'r tiwtor cwrs a/neu Gwasanaethau TGCh cyn gynted â phosib ynghlwm ag unrhyw ymholiadau am gyfrineiriau neu unrhyw doriad o ddiogelwch rhwydwaith posibl.